| GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **192 – Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2020**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 19 Hydref 2020* | |
| **Sifftio** | |
| Yn destun sifftio yn Senedd y DU? | Nac ydy |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amh |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amh |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amh |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 24 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw'n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amh |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 3 Tachwedd 2020 |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 ac adran 8C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau 2020 hyn yn diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn sy'n gymwys i Gymru:

**Deddfwriaeth Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys (mewn perthynas â Chyd-drefniadaeth Marchnadoedd Amaethyddol ("CMO"))**

- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1760/2000 sy'n sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid buchol ac ynghylch labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion.
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1850/2006 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer ardystio hopys a chynhyrchion hopys.
- Rheoliad (UE) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar gyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol.

**Rheoliadau Domestig** (**sy'n gweithredu deddfwriaeth yr UE mewn perthynas â Chyd-drefniadaeth ar gyfer Marchnadoedd Amaethyddol ac sydd hefyd yn diwygio deddfwriaeth a ddargedwir yr UE - Cyd-drefniadaeth ar gyfer Marchnadoedd Amaethyddol**)

- Rheoliadau Ardystio Hopys 1979
- Rheoliadau'r Fframwaith Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol, etc.) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Mesurau'r Farchnad (Safonau Marchnata) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Mesurau'r Farchnad (Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Amaethyddol (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019
- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a Chyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol, etc.) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau gweithredadwy i'r offerynnau y cyfeirir atynt uchod. Yn benodol, er mwyn sicrhau bod Protocol Gogledd Iwerddon yn cael ei weithredu ac i gael gwared ar amwysedd, anghysondebau a chamgymeriadau argraffyddol fel y gall yr offerynnau weithredu fel y bwriadwyd ar ôl diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu. Gwneir newidiadau hefyd i'r darpariaethau trosiannol sy'n ymwneud â mewnforio hopys a chynhyrchion hopys, â gofynion hysbysu ar gyfer mewnforio cig eidion a chig llo o drydydd gwledydd ac â gofynion marcio ar gyfer wyau deor a chywion a fewnforir o'r UE.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 21 Hydref 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol ar y Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.